**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i:**

**Archwiliad AHGTAEF i effeithiolrwydd dargyfeirio plant rhag y system cyfiawnder troseddol: bodloni anghenion, sicrhau diogelwch, ac atal aildroseddu**

Rwy'n croesawu'r archwiliad ar y cyd hwn rhwng Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi ac Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi. Rwy'n cefnogi'r argymhellion sy'n ceisio fframweithiau cenedlaethol cryfach, canllawiau cliriach, systemau data gwell, a chydweithio amlasiantaeth mwy effeithiol er mwyn sicrhau bod gan blant fynediad i'r cymorth iawn, gan yr asiantaethau cywir, ar yr amser iawn.

Mae un argymhelliad ar gyfer Prif Gwnstabliaid wedi'i amlinellu yn yr adroddiad hwn, ac yn rhinwedd fy swydd fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, byddaf yn monitro cynnydd yr Heddlu o ran gweithredu'r newidiadau sydd eu hangen. Trafodwyd ymateb yr Heddlu i'r archwiliad hwn yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 26 Tachwedd 2025. Dyma'r fforwm lle'r wyf yn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflenwi gwasanaethau plismona ar draws ardal Dyfed-Powys.

Mae'n dda gennyf ddweud bod gwaith eisoes wedi cychwyn yng Nghymru. Fel arweinydd Cymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru dros blant a phobl ifainc, ac fel cyd-gadeirydd Grŵp Llywio Cymru Gyfan ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys ar gyfer Plant, mae'r adroddiad hwn yn adleisio rhai o'r canfyddiadau sydd eisoes wedi'u hamlygu fel meysydd y mae angen i'n gwasanaethau wella, yn arbennig o gwmpas cysondeb o ran canllawiau, prosesau ac ymagweddau.

Nodaf isod fy syniadau a'r sicrwydd rwyf wedi'i dderbyn wrth y Prif Gwnstabl mewn perthynas â'r argymhelliad o fewn yr adroddiad. Er bod yr adroddiad yn cyfeirio at "warediadau y tu allan i'r llys", bydd fy ymateb yn cyfeirio at "ddatrysiadau y tu allan i'r llys".

**<u>Argymhelliad</u>: Dylai Prif Gwnstabliaid wella'r ffordd y rheolir gwarediadau y tu allan i'r llys drwy:**

- **gweithio gyda gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid i sefydlu trefniadau rhannu data ffurfiol er mwyn sicrhau mynediad amserol a chyson i wybodaeth am bob math o warediad y tu allan i'r llys**
- **sicrhau bod penderfyniadau am y defnydd o ganlyniadau trosedd 20 a 21 yn gyson a phriodol ac yn adlewyrchu**

**canllawiau diwygiedig Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu**

- **sicrhau bod yr heddlu bob amser yn defnyddio canllawiau matrics difrifoldeb plant Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â chanlyniadau i blant a bod y rhesymeg dros y penderfyniadau hynny bob amser yn cael ei chofnodi.**
- **sicrhau bod penderfyniadau ar y cyd â’r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid am warediadau y tu allan i’r llys yn cael eu gwneud ar y lefel awdurdod briodol.**
- **sicrhau bod hawliau cyfreithiol plant wedi’u bodloni cyn cyhoeddi datrysiad cymunedol; mae hyn yn cynnwys yr angen i rybuddio a sicrhau bod oedolyn priodol yn bresennol.**
- **sicrhau y gwneir cyfeiriadau diogelu pan fydd hynny’n briodol.**

Yn dilyn adolygiad yn gynharach eleni, mae gan Heddlu Dyfed-Powys arweinydd strategol (Prif Uwch-arolygydd) yn awr ar gyfer portffolios cyfiawnder ieuenctid a phlismona sy’n canolbwyntio ar y plentyn. Er bod yr Heddlu’n cydnabod bod angen gwella (fel yr amlinellir yn yr archwiliad ar y cyd hwn), rwyf wedi fy sicrhau bod cynlluniau ar waith ar gyfer sicrhau gwell gwasanaeth plismona i blant ardal Heddlu Dyfed-Powys.

Cefais fy sicrhau gan y Prif Gwnstabl bod gwaith yn mynd rhagddo i gryfhau rhannu data â phartneriaid, a sefydlu prosesau mewnol clir ar gyfer monitro data, dadansoddi data a dwysáu.

Mae fy Mhanel Craffu ar Warediadau y Tu Allan i’r Llys yn adolygu ac yn sicrhau ansawdd y defnydd o warediadau y tu allan i’r llys a gyhoeddir gan yr heddlu yn annibynnol. Mae’r Panel yn asesu cydymffurfiaeth â pholisi, barn dioddefwyr a throseddwyr, y rhesymeg dros benderfyniadau, cymesuredd, difrifoldeb, effaith gymunedol ac ystyriaeth o ddewisiadau amgen. Rwy’n cyhoeddi canfyddiadau’r Panel ar fy ngwefan er tryloywder. Drwy godi’r mater hwn yn y Bwrdd Plismona, amlinellodd y Prif Gwnstabl y gellid gwneud mwy i graffu’n fewnol ar achosion gwarediadau y tu allan i’r llys sy’n ymwneud â phlant, ac y byddai hyn yn cael ei ystyried wrth ailystyried y strwythurau llywodraethu, a fydd yn cyflwyno llwybrau mewnol clir ar gyfer monitro, gwerthuso a dwysáu.

Yr wyf yn cyffroi o glywed bod peth o’r cynnydd eisoes ar waith – mae swydd Dadansoddwr Plant a Phobl Ifainc penodol wedi’i chymeradwyo a

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

bydd yn cael ei hysbysebu yn fuan. Bydd yr adnodd hwn yn gwella gallu’r Heddlu i olrhain aildroseddu a dadansoddi tueddiadau’n sylweddol, gan gynnwys ffactorau demograffeg.

Yr wyf wedi fy sicrhau bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn sicrhau llywodraethu cryfach, monitro cyson a gwneud penderfyniadau ar lefelau awdurdod priodol. Mae fy swyddfa’n monitro cynnydd yr Heddlu yn dilyn yr adolygiad mewnol a gynhaliwyd yn gynharach eleni, yn ogystal â dilyn y cynnydd yn erbyn yr adroddiad archwiliad hwn a’n gwaith Cymru gyfan ehangach.

Rwy’n ddiolchgar am gyhoeddiad yr adroddiad hwn a’i argymhelliad. Bydd fy nhîm a minnau’n parhau i weithio’n agos â chynrychiolwyr Heddlu Dyfed-Powys, yn ogystal â’n partneriaid ledled Cymru. Rydw i’n frwd ynglŷn â sicrhau y gweithredir ar yr holl ddysgu perthnasol o’r adroddiad hwn er mwyn gwella profiad plant sy’n dod i gysylltiad â’r heddlu a’n partneriaid mewn modd teg a chyson sy’n canolbwyntio ar y plentyn.